
Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon 2024-25
## Comisiwn y Senedd

Rhagfyr 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
X: **@SeneddArchwilio**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# **Craffu ar Gyfrifon 2024-25**
# Comisiwn y Senedd

Rhafyr 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Adam Price AS** *
Plaid Cymru

* Fel un o Gomisiynwyr y Senedd, esgusododd Adam Price ei hun o'r ymchwiliad hwn.

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion a chasgliad ....... 7**

**1. Cyflwyniad ....... 8**

**2. Paratoi'r cyfrifon a'u harchwilio ....... 9**

Cyflwyniad ....... 9

Ein barn ni ....... 9

**3. Llywodraethu ....... 10**

Strwythur llywodraethu ....... 10

Uwch aelodau o staff ....... 10

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol ....... 11

Y rhaglen newid ....... 12

**4. Sicrwydd ....... 14**

Fframwaith Sicrwydd ....... 14

Strategaethau'r Comisiwn ....... 14

Archwilio Mewnol ....... 15

Heriau ar gyfer 2024-25 ....... 15

**5. Risg ....... 17**

Datganiadau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg ....... 18

Ein barn ni ....... 19

**6. Datganiadau Ariannol ....... 20**

Sefyllfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn ....... 20

Gwahaniaethau rhwng yr alldro a'r gyllideb ....... 20

Arbedion yn ystod y flwyddyn ....... 21

Arbedion yn ystod 2023-24 a'r effaith ar 2024-25 ....... 21

Arbedion ar gyfer 2024-25 ... 22

Y Gronfa Prosiectau ... 23

**7. Cyllidebau wedi'u clustnodi ... 26**

Trosolwg ... 26

Diwygio'r Senedd ... 26

Ffyrdd o Weithio ... 27

Cyllidebau alldro yn erbyn cyllidebau wedi'u clustnodi ... 29

Risgiau ... 29

Ein barn ni ... 30

**8. Perfformiad ... 31**

Dangosyddion Perfformiad Allweddol ... 31

Dangosydd Perfformiad Allweddol 14: Strategaeth Carbon Niwtral ... 31

Dangosydd Perfformiad Allweddol 15: Gwariant gyda chyflenwyr yng Nghymru ... 34

Ein barn ni ... 34

**9. Staff ... 36**

Nifer y staff a chyflogau ... 36

Trefniadau oddi ar y gyflogres ... 38

Trosiant staff ... 39

Absenoldeb oherwydd salwch ... 40

Amrywiaeth y gweithlu ... 42

Rhywedd ... 42

Ethnigrwydd ... 43

Cefndir economaidd-gymdeithasol ... 44

Anabledd ... 45

Cyfeiriadedd rhywiol ... 46

Recriwtio Cynhwysol ........ 46

Arolygon ........ 47

Arolwg Pobl neu Staff ........ 47

Arolwg Pwls Llesiant ........ 48

Arolwg Urddas a Pharch ........ 50

Ein barn ni ........ 51

**Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ........ 53**

# Argymhellion a chasgliad

**Argymhelliad 1.** Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd ei Strategaeth Carbon Niwtral yn newid ar ôl Diwygio'r Senedd er mwyn ymateb i'r her sy'n deillio o gynnydd sylweddol yn nifer yr Aelodau a swyddogion. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Comisiwn rannu gyda'r Pwyllgor unrhyw adolygiadau mewnol sydd wedi eu cynnal er mwyn asesu'r effaith ar allyriadau carbon parhaus y Comisiwn cyn yr etholiad. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 3.** Dylai Comisiwn y Senedd roi gwybod i'r Pwyllgor hwn (neu ei olynydd) am unrhyw newidiadau i'w darged allyriadau carbon (Dangosydd Perfformiad Allweddol 14 ar hyn o bryd) a chynnwys rhagor o fanylion am sut y mae unrhyw darged newydd yn cael ei gyfrifo. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 4.** Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw waith monitro sy'n cael ei wneud i ddeall yn well pam nad yw cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn arwain at gynnydd cymesur mewn penodiadau. Dylai'r wybodaeth hon gael ei darparu cyn craffu ar y cyfrifon blynyddol a dylai gynnwys gwybodaeth am unrhyw gamau sylweddol sy'n cael eu cymryd gan y Comisiwn. ........ Tudalen 51

**Argymhelliad 5.** Dylid adolygu prosesau recriwtio Comisiwn y Senedd er mwyn deall yn well a ydynt yn darparu'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar ymgeiswyr niwrowahanol. Dylai'r adolygiad hwn geisio barn pobl niwrowahanol sydd wedi ymgeisio am swyddi a chael eu penodi i swyddi, er mwyn sicrhau bod profiad bywyd y garfan hon yn cael ei adlewyrchu'n llawn. ........ Tudalen 52

**Casgliad 1.** Bydd y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad yn ei Adroddiad Etifeddiaeth yn gofyn i'r Pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor hwn fonitro gwariant y Comisiwn gyda chyflenwyr yng Nghymru. ........ Tudalen 35

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ("y Pwyllgor") yn craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ("y Cyfrifon") Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") bob blwyddyn. Roedd Cyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2024-25[1] yn destun archwiliad allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ("yr Archwilydd Cyffredinol"), a lofnododd ei Dystysgrif Archwilio a'r Adroddiad ar 8 Gorffennaf 2025, gan roi barnau "cywir a theg" a rheoleidd-dra diamod.[2]

**2.** Mae'r datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig wedi eu harchwilio, ynghyd â thablau penodedig yn yr Adroddiad Taliadau a'r Adroddiad Staff. Nid oedd gweddill yr Adroddiad Blynyddol yn destun archwiliad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ddarllen y wybodaeth ac ystyried a oes anghysondebau o bwys gyda'r datganiadau ariannol a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad. Nid oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw sylwadau i'w gwneud[3].

**3.** Fe wnaeth y Pwyllgor chwech o argymhellion yn ein hadroddiad ar Gyfrifon 2023-24, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024[4]. Ymatebodd y Comisiwn ym mis Chwefror 2025, gan dderbyn neu nodi pob un o'r argymhellion a wnaed[5]. Fe wnaethant roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ym mis Gorffennaf 2025.[6]

**4.** Bydd cynnwys yr argymhellion, yn ogystal â chamau gweithredu'r Comisiwn mewn ymateb iddynt, yn cael eu hystyried lle bo'n berthnasol yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

[1] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025
[2] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t172
[3] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t174
[4] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2023-24: Comisiwn y Senedd, Tachwedd 2024
[5] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Chwefror 2025
[6] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Gorffennaf 2025

# 2. Paratoi'r cyfrifon a'u harchwilio

## Cyflwyniad

**5.** Mae strwythur y Cyfrifon fwy neu lai yr un fath ag ar gyfer blynyddoedd blaenorol; mae penodau yn darparu gwybodaeth am berfformiad, atebolrwydd a'r datganiadau ariannol, yn unol â'r canllawiau a nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ("FReM"). Mae hyn yn cynnwys defnyddio diagramau a ffeithluniau.

**6.** Symleiddiwyd y broses o gyflwyno'r adroddiad ar-lein eleni, yn unol â'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, fel y dywedwyd wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mai 2024[7]. Pan ofynnwyd iddi fyfyrio ar hyn, eglurodd y Prif Weithredwr a'r Clerc:

> *"We routinely look at web analytics, and that is the research that was undertaken—the research that we routinely do internally every year to see how people access the annual report and benchmark with best practice in other organisations. So, the kind of changes that we have undertaken this year to further streamline the report have included simplifying graphics, simplifying language and continuing to incorporate hyperlinks within the online text. So, rather than just putting a PDF online, we make sure that people can navigate the document easily and incorporate little videos and so on to make the information as accessible as possible"*[8].

## Ein barn ni

**7.** Mae'r Cyfrifon wedi eu cyflwyno'n dda, ac maen nhw'n defnyddio ffeithluniau a diagramau yn effeithiol. Serch hynny, mae'r ddogfen yn hir ac yn cynnwys rhywfaint o ailadrodd, yn enwedig mewn perthynas â rhaglenni newid trawsnewidiol y Comisiwn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Comisiwn yn ymdrechu i wneud y ddogfen mor hygyrch â phosibl ac mae'n canmol y Comisiwn am y gwelliannau a wnaed yn ystod y Senedd hon.

[7] Comisiwn y Senedd, Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 3 Mai 2024
[8] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 35

# 3. Llywodraethu

## Strwythur llywodraethu

### Uwch aelodau o staff

**8.** Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25[9], nododd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y "bu newidiadau hefyd o ran staff allweddol mewn sawl rôl hanfodol". Ar 10 Ionawr 2025, gadawodd Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd y Senedd ar ôl bod yn y swydd ers mis Chwefror 2019[10]. Gwnaed taliad ymadael o £41,830, a ddosbarthwyd fel taliad arbennig yn y Cyfrifon[11]. Gwnaeth y Comisiwn benodiad dros dro i rôl Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd o 29 Ebrill 2024, trwy weddill y flwyddyn ariannol.[12]

**9.** Penododd y Comisiwn Bennaeth Adnoddau Dynol a Phrif Swyddog Cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol trwy ymgyrchoedd recriwtio allanol, yn dilyn cyfnod o drefniadau dros dro ar gyfer y rolau[13]. Fe wnaeth y Pennaeth Llywodraethu ac Archwilio adael y Comisiwn hefyd, ym mis Gorffennaf 2023, gan arwain at newid i fodel allanol llawn ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol, gyda'r gwaith yn cael ei wneud gan gwmni o'r enw Validera, dan oruchwyliaeth y Prif Swyddog Cyllid[14].

**10.** Pan ofynnwyd iddi sut roedd y sefydliad wedi rheoli newidiadau ar lefel weithredol, a'r effaith ganlynol ar eu rhaglenni newid sylweddol, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wrth y Pwyllgor:

> *"… there were no issues with the leadership transitions, so the continuity of governance arrangements was secured. That is why we articulate our governance arrangements very clearly, because then colleagues and the central change management bodies are able to support the new incumbents in getting up to speed and making sure that there is no interruption in progress. We were fortunate that the two new incumbents were, ultimately, after a process, promoted from*

[9] Comisiwn y Senedd, Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Mehefin 2025
[10] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t149
[11] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t151
[12] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t151
[13] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t128
[14] Comisiwn y Senedd, Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Mehefin 2025

> *within, so they were very familiar with the arrangements that we have already and were able to occupy their roles quickly and seamlessly"*[15].

## Y Bwrdd Taliadau Annibynnol

**11.** Yn ei adroddiad ar Gyfrifon 2023-24 y Comisiwn, nododd y Pwyllgor ei fod yn croesawu'r ffaith fod deialog strwythuredig ar y gweill lle mae materion a ystyrir gan y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gyd-ddibynnol[16]. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad bryderon hefyd am hyder yr Aelodau ym mhenderfyniadau'r bwrdd, yn ogystal â'r gallu cyfyngedig i graffu ar benderfyniadau a gweithredoedd y Bwrdd. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn argymell y canlynol:

> *"Dylai'r Comisiwn adolygu sut y creffir ar waith y Bwrdd Taliadau Annibynnol; a nodi'n ysgrifenedig i'r Pwyllgor unrhyw ffyrdd newydd y gellir rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac Aelodau ynghylch sut y mae'r Bwrdd yn gweithredu. Dylai'r gwaith craffu hwn ddigwydd yn rheolaidd a dylai gael ei wneud yn drylwyr ac mewn modd tryloyw" [Argymhelliad 4]*[17].

**12.** Cafodd yr argymhelliad ei "nodi" gan y Comisiwn, gydag esboniad nad oedd yn gallu ei dderbyn "oherwydd y fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i weithrediad a swyddogaethau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol"[18]. Nododd yr ymateb y canlynol:

> *"Mae'r Bwrdd a'r Comisiwn yn cynnal deialog strwythuredig a fydd yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau, gan gynnwys gwaith ymgysylltu sy'n ymwneud â symleiddio'r Penderfyniad, sy'n cynnig llwybr arall i gael gwell dealltwriaeth o waith y Bwrdd"*[19].

**13.** Yng Nghyfrifon 2024-25, mae'r Comisiwn yn cadarnhau bod y ddeialog strwythuredig hon wedi digwydd drwy gyfres o gyfarfodydd rhwng y Comisiwn a

---

[15] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 46
[16] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2023-24: Comisiwn y Senedd, Tachwedd 2024, t28
[17] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon Comisiwn y Senedd 2023-24, Tachwedd 2024, t28
[18] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Chwefror 2025
[19] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Chwefror 2025

Chadeirydd y Bwrdd, Dr Elizabeth Haywood, ynghyd ag un aelod arall o'r Bwrdd (yn dibynnu ar y pwnc dan drafodaeth)[20]. Aeth ymlaen i ddweud bod y ddeialog yn rhoi "cyfle anffurfiol i'r Bwrdd a'r Comisiwn rannu'r wybodaeth ddiweddaraf a'r syniadau diweddaraf, a thrafod materion o ddiddordeb cyffredin yn anffurfiol".

**14.** Ymhelaethodd y Prif Weithredwr a'r Clerc ar hyn i gadarnhau bod pedwar cyfarfod wedi'u cynnal rhwng y Comisiwn a'r bwrdd, yn fwyaf diweddar (adeg cyfarfod y Pwyllgor) ym mis Mehefin 2025[21]. Cadarnhaodd y Llywydd fod diwygio'r Senedd yn agwedd hanfodol ar y trafodaethau hyn, o ystyried y goblygiadau i'r Comisiwn a'r bwrdd[22].

## Y rhaglen newid

**15.** Yn ei Gyfrifon, mae'r Comisiwn yn nodi mai "elfen sylweddol o gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol yw darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol ar raglen newid y Comisiwn".[23]

**16.** Fel rhan o'r rhaglen hon, sefydlodd y Comisiwn Fwrdd Newid Senedd 26 ("y Bwrdd Newid") i helpu i oruchwylio a llywio'r newidiadau sylweddol sydd eu hangen. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a'r Clerc ac mae'n "cynnwys aelodaeth graidd o'r Bwrdd Gweithredol, wedi'i hategu gan uwch swyddogion perthnasol eraill"[24]. Mae'r Cyfrifon yn nodi bod y Bwrdd Newid yn gyfrifol am "ddarparu cyfeiriad strategol, awdurdod i wneud penderfyniadau a goruchwyliaeth i gefnogi cyflawniad amrywiol ffrydiau gwaith".

**17.** Un o swyddogaethau sylfaenol y Bwrdd Newid fu cytuno ar Strategaeth a Chynllun Cyflawni Newid Senedd 26, sy'n cynnwys saith maes canlyniad.[25]

**18.** Yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024, nododd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn fod Bwrdd Rhaglen Diwygio presennol y Senedd "yn cael ei ailosod fel Bwrdd Rhaglen y Seithfed Senedd"[26]. Nodwyd y byddai'r Bwrdd Newid yn adolygu'r cylch gorchwyl ac aelodaeth Bwrdd Rhaglen y Seithfed Senedd a Bwrdd y Rhaglen Ffyrdd o Weithio, gan gynnal "goruchwyliaeth

[20] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t62
[21] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 73
[22] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 74
[23] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, Gorffennaf 2025, t21
[24] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t22
[25] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t24
[26] Comisiwn y Senedd, Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 8 Gorffennaf 2024

strategol o'r ddwy raglen". Croesawyd y datblygiad hwn gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei Adroddiad Blynyddol 2024-25.[27]

**19.** Pan ofynnwyd iddi fyfyrio ar eglurder y strwythurau sydd ar waith, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wrth y Pwyllgor:

> *"We think they have been set out in narrative form… we have done that in some length because we feel it is important to explain exactly how our decision making and our strategic decision making happens. The aim of that is to encourage and foster a positive and accountable culture within the organisation, but also explain how, for example, the executive board took on… the function of a change board as well, having oversight of delivery of our Senedd 2026 change strategy, and then explaining how the operational delivery was then the responsibility of programme boards beneath that, each one looked after by a senior responsible officer in terms of one of the directors. That structure isn't fixed and immutable"*[28].

[27] Comisiwn y Senedd, Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Mehefin 2025
[28] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 44

# 4. Sicrwydd

## Fframwaith Sicrwydd

**20.** Yn 2024-25, cyflwynodd y Comisiwn "ddull newydd ar y lefel gorfforaethol", sydd wedi arwain at lunio "un Datganiad Sicrwydd Corfforaethol ar gyfer y Swyddog Cyfrifyddu" i lywio ei Datganiad Llywodraethu, sydd wedi'i gynnwys yn y Cyfrifon.[29]

**21.** Bu Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ac un aelod arall o'r Bwrdd yn craffu ar y Datganiad Sicrwydd Corfforaethol (yn ogystal â dogfennaeth ategol arall, gan gynnwys y mapiau sicrwydd)[30]. Mae'r Cyfrifon yn nodi:

> *"Mae adborth y Cynghorwyr Annibynnol ar y broses o gasglu tystiolaeth i ategu'r sicrwydd a ddarperir wedi bod yn gadarnhaol a bydd y gwelliannau a nodwyd yn cael sylw. Mae hyn wedi cynnwys awgrymiadau megis egluro'r lefelau o sicrwydd a ddymunir a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â lefelau'r parodrwydd i dderbyn risg a sicrwydd trydedd linell/annibynnol".*[31]

**22.** Hefyd, dywed y Comisiwn y bydd y "dull hwn yn cael ei werthuso a'i addasu ymhellach i sicrhau ei fod yn addas at y diben cyn proses casglu sicrwydd y flwyddyn nesaf".

## Strategaethau'r Comisiwn

**23.** Mae gan y Comisiwn sawl "strategaeth allweddol" ar waith i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni Strategaeth gyffredinol y Comisiwn, yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynlluniau Gwasanaeth[32]. Yn y Cyfrifon, dywed y Comisiwn fod y broses mapio sicrwydd "wedi nodi bod angen cydweddu'r rhain ymhellach, ynghyd ag unrhyw strategaethau corfforaethol yn y dyfodol, er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd yn effeithiol, ac yn gyrru'r gwaith o gyflawni'r nodau a'r blaenoriaethau allweddol".[33]

---

[29] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t137
[30] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t138
[31] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t139
[32] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t130
[33] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t130

## Archwilio Mewnol

**24.** Mae'r Cyfrifon yn cadarnhau bod y Comisiwn yn pontio i fodel allanol ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol, fel y nodwyd uchod, ac yn nodi themâu'r adolygiadau a gwblhawyd a'r rhai a oedd ar waith ar adeg cyhoeddi[34]:

- Llywodraethu Rhaglenni a Phrosiectau (archwiliad ymgynghorol)
- Treuliau'r Aelodau
- Gwiriad Atal Twyll
- Caffael
- Cwynion a Chanmoliaeth
- Llif Arian, Trysorlys a Gweinyddu Bancio
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu;
- Cynllunio Strategol.
- Seiberddiogelwch

**25.** O ran y canfyddiadau, mae'r Cyfrifon yn nodi:

> *"Mae adroddiadau archwilio mewnol yn parhau i nodi nifer fach o feysydd lle y gellir cyflwyno gwelliannau i'r amgylchedd rheoli, ac yn amlygu meysydd lle y mae'r Comisiwn yn defnyddio arferion da o ran y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith. Lle y caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn yr adroddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn".*

## Heriau ar gyfer 2024-25

**26.** Mae Cyfrifon 2024-25 yn nodi meysydd ffocws penodol o ran gwaith y Comisiwn yn datblygu trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol[35]:

[34] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t140-141
[35] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t130-133

- Sicrhau bod newid yn cael ei reoli'n effeithiol yn ystod y cyfnod pontio i'r Seithfed Senedd;
- Parhau i ddatblygu'r fframwaith cynllunio strategol;
- Cynnal trefniadau llywodraethu gwybodaeth cryf.

# 5. Risg

**27.** Mae'r Comisiwn yn nodi 10 risg ar ei Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac yn asesu bod gan saith o'r risgiau hyn debygolrwydd gweddilliol canolig neu gymedrol o ddod i'r fei. Mae gan y risgiau eraill debygolrwydd gweddilliol isel o ddod i'r fei[36]. Mae'r risgiau hyn wedi'u dosbarthu ar sail asesiad y Comisiwn o'u tebygolrwydd o ddod i'r fei, ac fe'u nodir fel a ganlyn:

**Tebygolrwydd gweddilliol y bydd risg yn dod i'r fei – canolig neu gymedrol:**

- Seiberddiogelwch;
- Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd);
- Diwygio'r Senedd;
- Capasiti a Gallu Corfforaethol;
- Urddas a Pharch;
- System Adnoddau Dynol/Cyflogres;
- Deallusrwydd Artiffisial (AI)– (risg wedi'i hychwanegu yn 2024-25).

**Tebygolrwydd gweddilliol y bydd risg yn dod i'r fei – isel:**

- Prosiect Bae Caerdydd 2032;
- Prosiectau Ystadau wedi'u llywio gan Ddiwygio'r Senedd;
- Ymateb y Comisiwn i Adolygiad y Bwrdd Taliadau o Gyflogau a Graddio (risg wedi'i hychwanegu yn 2024-25).

**28.** Tynnodd y Comisiwn risgiau sy'n ymwneud â Newid Cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU, y Fframwaith Rheoleiddio a meddalwedd ar gyfer Deddfwriaeth yn ystod 2024-25[37].

[36] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t44-48
[37] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t48

**29.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Prif Weithredwr a'r Clerc a oedd y risgiau a nodwyd fel rhai mwy difrifol eu natur wedi'u nodi felly oherwydd tebygolrwydd, effaith neu gyfuniad o'r ddau[38]. Ymatebodd fel a ganlyn:

> *"I think the short answer is 'both', in the sense that we look at the inherent risk, and that calculation is made by looking both at the impact of the risk crystallising and the factors that propose the threat. And then, obviously, the point of the risk register is that we're able to think through the mitigations that we can put in place to try and lessen the severity and plan for what might happen, and then the residual risk rating is arrived at. Our overall risk environment is very high at the moment. We're delivering, as officials, several major changes all at once against a backdrop of constrained public finances and a sensitive political backdrop"*[39].

**30.** Darparodd Comisiwn y Senedd ddiweddariad ysgrifenedig pellach cyfrinachol ynglŷn â'r mesurau sy'n cael eu cymryd i liniaru'r risg seiberddiogelwch sy'n wynebu'r sefydliad[40].

## Datganiadau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg

**31.** Mae'r Comisiwn a'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno i set o ddatganiadau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg[41], datblygiad a groesawyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ei Adroddiad Blynyddol[42]. Mae'r Cyfrifon yn egluro bod hyn wedi dod "ar ôl proses drylwyr o ymgynghori ag arbenigwyr pwnc ac ymgysylltu â'r Bwrdd Gweithredol (gyda'i aelodau'n unigol ac ar y cyd) a'r Tîm Arwain".

**32.** Fel rhan o'r broses casglu sicrwydd i lywio'r datganiadau, lluniodd y Comisiwn Fap Sicrwydd Rheoli Risg. Roedd y map hwn yn "mapio'r rheolaethau ar gyfer ein risgiau corfforaethol a'n risgiau mwyaf arwyddocaol ar draws y tair llinell sicrwydd", yn unol â chanllawiau Trysorlys EF.[43]

---

[38] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 77
[39] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 80
[40] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 86
[41] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t135
[42] Comisiwn y Senedd, Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Mehefin 2025, t18-19
[43] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t135

**33.** Mae'r Cyfrifon yn nodi:

> *"Nododd y broses fapio hon yr angen i sicrhau sicrwydd trydedd linell/annibynnol digonol ar gyfer rhai o'n risgiau, ac rydym wedi mynd i'r afael â hyn drwy sicrhau bod y cynllun archwilio mewnol wedi'i dargedu'n briodol i gynnwys risgiau y bu llai o graffu annibynnol arnynt. Mae hyn wedi arwain at gynnwys archwiliadau ar risgiau sy'n ymwneud ag Urddas a Pharch, a Diogelu Data yn 2025-26. Tynnodd y broses sylw at yr angen i adolygu'r disgrifiad o reolaethau risg hefyd, a bwriedir bwrw ymlaen â hyn yn ystod 2025-26".*[44]

**34.** Ym mis Ionawr 2025 cytunodd y Comisiynwyr y byddai'r datganiad yn cael ei "adolygu a'i ail-raddnodi ar ôl blwyddyn o'i ddefnyddio", ac yna bob blwyddyn wedi hynny[45].

## Ein barn ni

**35.** Nododd y Pwyllgor fod y Comisiwn yn rheoli nifer o brosiectau mawr ac felly'n rheoli lefel uchel o risg ar draws ei bortffolio o brosiectau a gweithgareddau. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod y Comisiwn yn rhoi strwythurau ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid oes modd lliniaru'r holl risgiau bob amser.

**36.** Yn benodol, rydym yn cydnabod bod risgiau seiberddiogelwch yn arwyddocaol iawn, yn enwedig yn yr hinsawdd bresennol. Rydym yn fodlon bod y Comisiwn yn deall graddfa'r risgiau a'i fod yn cymryd camau priodol i'w lliniaru. Bydd y maes hwn yn parhau i fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor wrth graffu ar unrhyw gorff cyhoeddus yng Nghymru.

[44] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t135
[45] Comisiwn y Senedd, Pwyllgor Cyfarfod Comisiwn y Senedd, 20 Ionawr 2025

# 6. Datganiadau Ariannol

## Sefyllfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn

**37.** Mae'r Comisiwn yn adrodd tanwariant cyfanredol o £1.2 miliwn yn erbyn cyllideb ddiwygiedig net o £70.5 miliwn, neu 1.7 y cant o'r gyllideb ddiwygiedig[46]. Mae'r Comisiwn yn nodi bod ei alldro gweithredol (ac eithrio eitemau nad ydynt yn arian parod a chyllidebau prosiectau wedi'u clustnodi) ar gyfer 2024-25 0.96% yn is na'r gyllideb.[47]

**38.** Roedd yr alldro adnoddau net yn ymwneud â gwariant y Comisiwn (ac eithrio costau Aelodau ac AME) yn £50.7 yn 2024-25, o'i gymharu â £46.4 miliwn yn 2023-24, sy'n gynnydd o 9.4%[48]. Roedd hyn £0.7 miliwn yn is na'r gyllideb ddiwygiedig o £51.4 miliwn, neu 1.4%.

**39.** Mae'r Cyfrifon yn cynnwys dadansoddiad o'r alldro net yn erbyn y "gyllideb gymeradwy", sef y gyllideb a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Hydref 2024, yn ogystal â'r "gyllideb ddiwygiedig", sef yr Ail Gyllideb Atodol[49].

## Gwahaniaethau rhwng yr alldro a'r gyllideb

**40.** Mae'r Cyfrifon yn dangos tanwariant ar y canlynol[50]:

- Cyflogau staff a chostau cysylltiedig o £766,000, neu 2.5% o'r gyllideb ddiwygiedig; a
- Chostau nad ydynt yn ymwneud â staff o £646,000, neu 4.7% o'r gyllideb ddiwygiedig.

**41.** Mae'n nodi gorwariant ar y canlynol[51]:

- Gwariant cyfalaf o £676,000, neu 135.2% o'r gyllideb ddiwygiedig.
- Costau cyfalaf o £121,000 (heblaw arian parod), neu 2.3% o'r gyllideb ddiwygiedig.

[46] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t165
[47] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t168
[48] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t165
[49] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t167
[50] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t167
[51] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t167

**42.** O ran y gorwariant blaenorol, cadwodd y Comisiwn ei gyllideb ar gyfer gwariant cyfalaf ar £500,000 yn ei Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2024-25[52]. Hefyd, nododd y Cyfrifon fod llai o incwm na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb, sef alldro o £75,000 yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £100,000.

**43.** Mewn perthynas â chymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol, yr alldro yn erbyn y gyllideb oedd £535,000, sef £99,000 neu 15.6% o dan y gyllideb ddiwygiedig o £634,000. Roedd yr alldro o ran cymorth i Swyddfa'r Comisiynydd Safonau yn £84,000; £18,000 neu 17.6% yn is na'r gyllideb ddiwygiedig o £102,000[53].

**44.** Roedd tanwariant o £793,000 yn erbyn y gyllideb Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau, yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd yn wreiddiol o £19.2m (ym mis Tachwedd 2023) a £297,000 yn llai na'r gyllideb ddiwygiedig o £18.7m (ym mis Chwefror 2025)[54].

## Arbedion yn ystod y flwyddyn

### Arbedion yn ystod 2023-24 a'r effaith ar 2024-25

**45.** Bu'n rhaid i'r Comisiwn wneud arbedion gwerth £1.229m yn ystod 2023-24, ar draws amrywiaeth o linellau yn y gyllideb[55]. Roedd hyn yn cynnwys oedi'r broses recriwtio a defnyddio dyddiadau cychwyn targed.

**46.** Roedd £737,500 o'r arbedion hyn yn untro eu natur yn ystod 2023-24 ac ni chawsant eu dwyn ymlaen i 2024-25. Effeithiodd y £491,500 sy'n weddill ar 2024-25, wedi'i rannu rhwng arbedion o £200,000 sy'n gysylltiedig â staff ac arbedion o £291,000 nad ydynt yn gysylltiedig â staff[56]. Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc y byddai angen "rheoli" £237,250 o'r arbedion 2023-24 sy'n effeithio ar 2024-25, tra byddai'r gweddill yn parhau heb effaith ar wasanaethau na chapasiti. Roedd yr olaf yn cynnwys arbedion o £107,00 ar y contract TGCh a chostau Ystad a Chyfleusterau, sy'n cynnwys £125,000 o'r £208,000 a amcangyfrifwyd yn 2023-24.

[52] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t167
[53] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t167
[54] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t167
[55] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Mawrth 2024
[56] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 19 Mawrth 2024

**47.** Yn ei thystiolaeth yn ymwneud â Chyfrifon 2023-24 ym mis Hydref 2024, dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Comisiwn wrth y Pwyllgor y bu'n rhaid troi at y gronfa prosiect ddwywaith y llynedd ar gyfer cymorth gydag arbedion[57].

**48.** Ar ôl craffu ar Gyfrifon 2023-24, daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod o'r farn:

> *"… bod angen atgyfnerthu'r diwylliant o wella prosesau'n barhaus a gwneud arbedion effeithlonrwydd yn y Comisiwn, a hoffai weld tystiolaeth o hyn cyn i'r Pwyllgor graffu ar y cyfrifon blynyddol."*[58]

**49.** Aeth y Pwyllgor ymlaen i argymell:

> *"Dylai'r Comisiwn nodi'n glir yng Nghyfrifon y dyfodol lle y mae arbedion yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi, yn ogystal â nodi effaith yr arbedion effeithlonrwydd hyn ar brosesau a mesurau effeithlonrwydd". [Argymhelliad 1]*

**50.** Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan y Comisiwn, a gadarnhaodd yn ei ymateb y byddai'n nodi'n glir ei arbedion yn ystod y flwyddyn ac effaith unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn y Cyfrifon[59].

## Arbedion ar gyfer 2024-25

**51.** Nododd Cyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2024-25 y byddai angen dod o hyd i arbedion gwerth £0.315m yn y gwariant ar weithgareddau gweithredol[60]. Yn y Cyfrifon, mae'r Comisiwn yn esbonio sut y llwyddodd i gyrraedd y targed hwn:

> *"Roedd y targed wedi'i rannu rhwng arbedion staff o £0.202 miliwn ac arbedion nad ydynt yn gysylltiedig â staff o £0.113 miliwn"*[61].

**52.** O ran effeithlonrwydd ar gyfer 2024-25, esboniodd y Comisiwn fod y rhain wedi'u cyflawni trwy[62]:

---

[57] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2024, paragraff 225
[58] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2023-24: Comisiwn y Senedd, Tachwedd 2024, t14-15
[59] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Chwefror 2025
[60] Comisiwn y Senedd, Cyllideb Ddrafft: 2024-25, Medi 2023
[61] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t135
[62] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t53

- Negodi o ran caffael ac arbedion;
- Newidiadau i brosesau er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth o fewn yr un lefel o adnoddau;
- Defnyddio deallusrwydd artiffisial lle bo'n briodol, i leihau'r amser a gymerir i gwblhau tasgau penodol;
- Awtomeiddio tasgau â llaw gan ddefnyddio datblygiadau technoleg, yn enwedig defnyddio cynhyrchion Office 365;
- Defnyddio dadansoddeg data i dargedu gwariant at feysydd effaith uchel ar gyfer ymgysylltu; a
- Gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth ac arferion gorau, cronni adnoddau ac osgoi dyblygu ymdrech.

**53.** Ers hynny, mae'r Comisiwn wedi ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am arbedion yn ystod y flwyddyn, ac mae'n darparu rhagor o fanylion am effeithlonrwydd[63]. Mae'n disgrifio'r cylch cynllunio blynyddol fel "mecanwaith allweddol ar gyfer sicrhau gwerth am arian", ac yn nodi bod y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig yn gwasanaethu fel offeryn i "dynnu sylw at ble a phryd y mae pwysau cost yn y dyfodol yn debygol o ddod i'r amlwg" fel bod y Comisiwn yn gallu "cynllunio'n rhagweithiol sut i'w rheoli".

**54.** Pan ofynnwyd iddi a oedd yr arbediad o £0.315m yn ymwneud â chostau wedi'u hoedi neu wedi'u hosgoi, ailadroddodd y Prif Weithredwr a'r Clerc fod yr arbedion wedi'u cyflawni trwy reoli trosiant staff trwy ohirio dyddiadau cychwyn, yn ogystal â rhai costau cyfle, er nad ydynt yn gostau wedi'u gohirio[64].

## Y Gronfa Prosiectau

**55.** Ym mis Hydref 2024, dywedodd y Comisiwn wrth y Pwyllgor nad oedd y rhestr lawn o brosiectau ar gyfer 2023-24 wedi'i hariannu, gan fod y Gronfa Prosiectau wedi'i defnyddio i wneud arbedion (fel y nodwyd uchod)[65].

[63] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Gorffennaf 2025
[64] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 11
[65] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2024, paragraff 225

Cadarnhawyd bod yr holl brosiectau a nodwyd yn flaenoriaethau sy'n bwysig i fusnes[66].

**56.** Esboniodd y Comisiwn ei fod wedi mynd ati yn 2023-24 i ddiffinio lefel newydd o brosiectau critigol o safbwynt y rhai sy'n ofynnol gan y gyfraith neu iechyd a diogelwch neu barhad busnes.[67]

**57.** Yn y Gyllideb ar gyfer 2024-25, nododd y Comisiwn brosiectau allweddol i'w blaenoriaethu yn 2024-25, gan gynnwys system gyflogres newydd, system Rheoli Busnes y Senedd newydd a diweddariad i'r seilwaith darlledu[68].

**58.** Yn y Cyfrifon, cadarnhaodd y Comisiwn ei fod yn bwriadu dechrau gwaith i newid y System Rheoli Busnes "y flwyddyn nesaf"[69], tra bod diweddariad y Prif Weithredwr a'r Clerc i'r Pwyllgor wedi cadarnhau bod £434,857 wedi'i wario ar gamau 2 a 3 o'r Rhaglen Seilwaith Darlledu[70]. Cwblhawyd y prosiect cyflogres ym mis Chwefror 2025[71].

**59.** Pan ofynnwyd iddi am reoli prosiectau amlflwyddyn, yn enwedig heb y gallu i ddwyn arian ymlaen o flwyddyn i flwyddyn, esboniodd y Prif Weithredwr a'r Clerc fod y fframwaith adnoddau tymor canolig yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer cynllunio ar sail dreigl[72]. Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Adnoddau ar y strwythurau llywodraethu sy'n sylfaen i hyn, gan esbonio:

> *"… we establish our resource base… and, within that, we then set a portfolio strategy for our projects—so, that's the spend outside of our business-as-usual services. The portfolio strategy is a prioritisation exercise, indicating the areas where, under our corporate plan, we want to see that spend prioritised, obviously. There is then a group that has been established, called the portfolio management group…*

[66] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2024, paragraff 212
[67] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2024, paragraff 212
[68] Comisiwn y Senedd, Cyllideb: 2024-25, Tachwedd 2023
[69] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t113
[70] Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Gorffennaf 2025
[71] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t170
[72] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 117

*to assess the business cases and to make recommendations to the executive board based on our strategy”*[73].

[73] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 118

# 7. Cyllidebau wedi'u clustnodi

## Trosolwg

**60.** Roedd Cyllideb 2024-25 yn cynnwys cyllidebau wedi'u clustnodi ar gyfer prosiectau penodol y Comisiwn, gan gynnwys diwygio'r Senedd a'r rhaglen Ffyrdd o Weithio, a oedd yn cynnwys prosiectau Tŷ Hywel 26, Siambr 26 a Bae Caerdydd 2032[74].

## Diwygio'r Senedd

**61.** Yn ei adroddiad ar Gyfrifon 2023-24, argymhellodd y Pwyllgor:

> *"Dylai'r Comisiwn sicrhau bod lleisiau staff yn cael eu hadlewyrchu ym mhob un o'r prosiectau sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd. Dylai sicrhau bod cynrychiolaeth staff yn rhan o'r broses o weithredu a dyfeisio'r rhaglenni newid sy'n gysylltiedig â diwygio'r Senedd"[75]. [Argymhelliad 3]*

**62.** Derbyniodd y Comisiwn yr argymhelliad hwn, gan nodi bod ymgysylltu â staff wedi bod yn "rhan ganolog o weithgarwch Diwygio'r Senedd".[76]

**63.** Yn y Gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2024-25, roedd £2.1m wedi'i glustnodi ar gyfer Diwygio'r Senedd:

- Cost swyddi a gymeradwywyd yn 2023-24 ar gyfer 2024-25 - £0.520m;
- Staff ychwanegol x 3 - £0.122m;
- Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff - £0.023m;
- Costau cyfalaf, gan gynnwys ar gyfer swyddfeydd yr Aelodau ac offer TGCh ar gyfer staff newydd - £1.399m.

**64.** Ysgrifennodd y Comisiynydd dros y Gyllideb a Llywodraethu ar y pryd at y Pwyllgor ym mis Mawrth 2025 ynglŷn â'r "dull deinamig a darbodus o reoli'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer Diwygio'r Senedd yn ystod y flwyddyn er mwyn

[74] Comisiwn y Senedd, Cyllideb: 2024-25, Tachwedd 2023
[75] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2023-24: Comisiwn y Senedd, Tachwedd 2024, t28
[76] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Chwefror 2025

lleihau risg i'r ddau brosiect ystadau sylweddol sy'n rhan o Ddiwygio'r Senedd"[77]. Nododd fod yn rhaid cwblhau'r prosiectau yn brydlon, gan egluro:

> *"Er mwyn rheoli risgiau i linell amser y prosiectau hyn, bydd unrhyw danwariant staff sy'n digwydd o fewn y cyllid a glustnodwyd ar gyfer Diwygio'r Senedd yn cael ei gadw fel arian wrth gefn ar gyfer y ddau brosiect gwaith hyn a'i drosglwyddo'n ôl i'r Gronfa Gyfunol ar ddiwedd y flwyddyn os nad oes angen ei ddefnyddio.*
>
> *Mae'r dull hwn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r Comisiwn drosglwyddo tanwariant staffio a defnyddio'r cyllid hwnnw ar faterion nad ydynt yn ymwneud â staffio i sicrhau bod y Comisiwn yn cwblhau'r holl waith yn barod ar gyfer dechrau'r Seithfed Senedd. Bydd penderfyniad o'r fath ond yn digwydd pan na fydd opsiwn arall a bydd yn digwydd yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru".*

**65.** Fodd bynnag, ni ofynnodd y Comisiynydd am dorri cyfanswm y gyllideb a glustnodwyd ar gyfer 2025-26, gan nodi mai'r "nod o hyd yw cyflawni'r prosiectau yn unol â'r cwmpas diffiniedig ac o fewn y cyllidebau dangosol"[78].

## Ffyrdd o Weithio

**66.** Yn ei Gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2024-25, clustnododd y Comisiwn £1.5m ar gyfer y Rhaglen Ffyrdd o Weithio. Yn yr Ail Gyllideb Atodol ym mis Chwefror 2024, fe wnaeth y Comisiwn leihau'r gyllideb £0.5m, i £1.031m. Dywedodd y Comisiwn:

> *"Pennwyd y gyllideb gyda'r disgwyliad y byddai gwaith dylunio'n cael ei wneud ac y byddai'r Comisiwn yn talu'n rhannol amdano yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25 … Mae'r strategaeth gaffael wedi esblygu ers cymeradwyo'r gyllideb ac mae proffil gwariant y prosiect wedi newid. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa tanwariant o fewn y flwyddyn."*[79]

[77] Llythyr oddi wrth y Comisiynydd Cyllideb a Llywodraethu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Mawrth 2025
[78] Llythyr oddi wrth y Comisiynydd Cyllideb a Llywodraethu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 14 Mawrth 2025
[79] Comisiwn y Senedd, Ail Gyllideb Atodol 2024-25: Memorandwm Esboniadol, Chwefror 2025

**67.** Mewn diweddariad, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wrth y Pwyllgor:[80]

- Prosiect Bae 2032 – cymeradwywyd yr achos busnes amlinellol ym mis Rhagfyr 2024, gydag ymarfer caffael yn dilyn. Gwnaeth cynigwyr gyflwyno cynigion ar-lein yn gynnar ym mis Mehefin 2025 a oedd, ar adeg y llythyr, yn cael eu hadolygu. Disgwylir derbyn y cyflwyniadau terfynol ym mis Hydref 2025.

- Tŷ Hywel 2026 – roedd gwaith i greu swyddfeydd newydd ar gyfer yr Aelodau a Llywodraeth Cymru i'w gwblhau yn ystod toriad yr Haf 2025.

- Siambr 2026 – roedd y gwaith adeiladu wedi dechrau ar adeg y llythyr a disgwylir iddo bara tan fis Chwefror 2026.

- Y Pierhead – ar adeg y llythyr, roedd y camau nesaf i'w hystyried gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn gydag ymrwymiad gan y Comisiwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn nhymor yr Hydref.

**68.** Mewn tystiolaeth lafar, cadarnhaodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd fod prosiect Tŷ Hywel wedi cyrraedd ei gam cyflawni terfynol ar ail lawr yr adeilad. Hefyd, bydd y swyddfeydd olaf yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2025 (ychydig yn hwyrach na'r dyddiad cau, ar sail y diweddariad a grybwyllir uchod)[81]. Nodwyd bod prosiect y Siambr ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn y dyddiad cau[82]. Pan ofynnwyd iddo am y cyllid ar gyfer y prosiect hwnnw, cadarnhaodd fod costau'r prosiect yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol, ond nad ydynt yn fwy na'r cyllid cyffredinol a glustnodwyd ar gyfer y rhaglen waith[83].

**69.** Mewn perthynas â'r Pierhead, cadarnhawyd eu bod yn cynnal profion marchnad feddal ar sut i fynd ati i reoli'r ased hwn yn y tymor hwy[84].

[80] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Gorffennaf 2025
[81] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 122
[82] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 122
[83] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 124
[84] Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 126

## Cyllidebau alldro yn erbyn cyllidebau wedi'u clustnodi

**70.** Yn y Cyfrifon, mae'r Comisiwn yn gosod y cyllidebau alldro yn erbyn y cyllidebau wedi'u clustnodi, sy'n dangos[85]:

- Tanwariant o £242,000 neu 23.5% yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer Ffyrdd o Weithio;
- Tanwariant o £65,000 neu 3.1% yn erbyn y gyllideb ar gyfer Diwygio'r Senedd.

## Risgiau

**71.** Yn ei adroddiad ar Gyfrifon 2023-24, nododd y Pwyllgor fod y Comisiwn wedi ychwanegu risgiau yn ymwneud â phrosiectau ystad Bae 2023 a Diwygio'r Senedd at ei gofrestr risgiau[86]. Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r dull gweithredu hwn, ond aeth ymlaen i argymell:

> *"Dylai'r Comisiwn ysgrifennu at y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y gwaith sy'n cael ei wneud i liniaru'r risgiau a achosir gan brosiectau diwygio mawr Bae 2032 a Diwygio'r Senedd a nodi sut y mae ei broffil risg yn newid, wrth i'r rhaglenni hynny ddatblygu, cyn gwaith craffu'r Pwyllgor ar ei Gyfrifon ar gyfer 2024-25"[87]. [Argymhelliad 5]*

**72.** Derbyniodd y Comisiwn yr argymhelliad hwn a darparodd ddiweddariadau cyfrinachol ar gofrestrau risg y rhaglenni perthnasol ac ymrwymodd i ddarparu diweddariadau pellach cyn y craffu ar y Cyfrifon[88], a ddigwyddodd yn briodol ym mis Gorffennaf 2025 (yn gyfrinachol).

**73.** Ystyriodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn Adroddiad Archwilio Mewnol ar lywodraethu prosiectau a rhaglenni ym mis Gorffennaf 2024[89]. Fe wnaeth y Pennaeth Archwilio Mewnol dynnu sylw at "argymhelliad i ffurfioli trefniadau adrodd" ar y ddau brosiect sydd wedi'u clustnodi yng

[85] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t169
[86] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2023-24: Comisiwn y Senedd, Tachwedd 2024, t31
[87] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2023-24: Comisiwn y Senedd, Tachwedd 2024, t31
[88] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Chwefror 2025
[89] Comisiwn y Senedd, Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 8 Gorffennaf 2024

nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol. Byddai hyn yn cynnwys gwaith papur sy'n cael ei ddarparu ymlaen llaw yn ogystal â chyflwyniad rheolaidd ar amserlenni a chofrestrau risg rhaglenni.

## Ein barn ni

**74.** Mae'r Comisiwn yn nodi bod costau adnewyddu'r Siambr yn uwch na'r hyn a nodwyd yn y gyllideb wreiddiol, ond nad yw'r costau'n uwch na'r gyllideb a glustnodwyd ar gyfer rhaglen diwygio'r Senedd. Rydym yn gwerthfawrogi bod y rhaglenni hyn yn gymhleth dros ben a bod rhywfaint o amrywiaeth i'w ddisgwyl.

# 8. Perfformiad

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

**75.** Roedd y Cyfrifon yn cynnwys Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol ar gyfer 2024-25, sy'n amlinellu perfformiad y Comisiwn yn erbyn 15 o ddangosyddion perfformiad allweddol[90]. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â nodau strategol y Comisiwn.

**76.** Dangoswyd bod 9 ohonynt wedi'u bodloni, bron wedi'u bodloni, neu y rhagorwyd arnynt. Ni chafodd un dangosydd perfformiad allweddol ei gyflawni, sef yr un yn ymwneud â lleihau ôl troed carbon. Nid oedd targedau wedi'u gosod ar gyfer pedwar ohonynt. Mae dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â staffio ac amrywiaeth y gweithlu yn cael eu hystyried yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 14: Strategaeth Carbon Niwtral

**77.** Mae targed y dangosydd perfformiad allweddol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn leihau ei allyriadau carbon o 1150 tunnell i 500 tunnell erbyn 2030, gyda cherrig milltir yn ystod y cyfnod. Mae'r Cyfrifon yn nodi bod defnydd wedi aros yn uwch na'r targed ar gyfer y cyfnod rhwng Medi 2024 a Mawrth 2025[91]. Mae'r Cyfrifon yn nodi:

> *"Mae'r defnydd o drydan wedi gostwng ychydig eleni, ond mae cynnydd mewn defnydd nwy a hawliadau teithio, yn enwedig hediadau, yn golygu ein bod uwchlaw ein targed carbon. Mae'r cylch hwn o ran hawliadau teithio fel arfer yn adlewyrchu cylch tymor y Senedd ac mae'n rhywbeth yr ydym yn anelu at ei leihau dros y flwyddyn nesaf".*

**78.** Roedd yr Adroddiad Cynaliadwyedd cysylltiedig yn darparu rhagor o wybodaeth, gan nodi:

> *"Yn y cyfnod cyn blwyddyn etholiad – ac un lle bydd maint a ffurf y Senedd yn newid – rydym wedi bod yn paratoi'r ystad, ac yn gweld*

[90] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t32
[91] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t42

> *cynnydd mewn teithio busnes. Mae'r rhain wedi cynhyrchu allyriadau carbon sy'n ein gwthio dros un o'n targedau blynyddol interim am y tro cyntaf"*[92].

**79.** Mae Strategaeth Lleihau Carbon y Comisiwn ar gyfer 2021-2030 yn cynnwys cerrig milltir ar gyfer cynnydd, gyda diweddariadau wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Cynaliadwyedd. Mae'r targedau wedi'u rhannu rhwng targedau tymor byr, a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer 2021 i 2023, a thargedau tymor canolig ar gyfer 2023 i 2026.

**80.** Yn ystod tystiolaeth ar gyfer Cyfrifon y flwyddyn flaenorol, dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wrth y Pwyllgor fod gwelliannau sy'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol wedi'u gohirio nes bod adnoddau ar gael i'w caffael. Cyfeiriodd at yr uwchraddiadau i'r unedau trin aer (sydd wedi'u cynnwys yn y targed tymor canolig, o 2023-2026) fel enghraifft[93].

**81.** O ganlyniad, argymhellodd y Pwyllgor:

> *"Dylai'r Comisiwn, yn ei Gyfrifon nesaf, nodi sut y mae'r prosiectau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Carbon Niwtral ac y bu rhaid eu gohirio wedi'u hailflaenoriaethu yn ystod y flwyddyn a phennu cynllun ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod os bydd prosiectau, y rhagwelwyd yn wreiddiol y byddent wedi'u cyflawni, yn parhau heb eu cyflawni yn 2024-25". [Argymhelliad 2]*[94]

**82.** Derbyniodd y Comisiwn yr argymhelliad hwn, gan nodi:

> *"Bydd y Comisiwn yn cynnwys gwybodaeth am y gwaith i gefnogi'r Strategaeth Carbon Niwtral, gan gynnwys unrhyw ail-flaenoriaethu, yn ei Adroddiad Blynyddol nesaf (sy'n rhan o ddogfen yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon). At hynny, bydd y Pwyllgor yn cael copi o'r adroddiad Cynaliadwyedd blynyddol nesaf cyn ei adolygiad o gyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2024-25. O fis Ionawr 2025, mae'r targedau byrdymor yn y Strategaeth Carbon Niwtral wedi cael eu bodloni, ac*

[92] Comisiwn y Senedd, Cynaliadwyedd: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t6
[93] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2024, paragraff 239
[94] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2023-24: Comisiwn y Senedd, Tachwedd 2024, t20

> *mae'r targedau tymor canolig ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni erbyn diwedd 2026"*[95].

**83.** Pan ofynnwyd iddi fyfyrio ar y methiant i gyrraedd y targed ar gyfer y chwe mis hyd at fis Mawrth 2025, esboniodd y Prif Weithredwr a'r Clerc:

> *"It was obviously disappointing to be over our carbon KPI in April, but that includes, and is due to, a number of factors. The estate is now, in the year that we're looking at, being more intensively used again, after a period of disruption during the COVID lockdown. There were adjustments to thermal comfort, and then there's the impact of business travel, as you say, by officials and by Members"*[96].

**84.** Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd fod trafodaethau wedi'u cynnal yn ymwneud â'r rhwydwaith gwresogi ardal gyda Chyngor Dinas Caerdydd. Fodd bynnag, nodwyd bod prosiect Bae 32 wedi cael effaith sylweddol ar rai o'r penderfyniadau hyn[97]. Pan ofynnwyd iddo am effaith diwygio'r Senedd ar y targedau, o ystyried y cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr ar ystâd y Senedd, eglurodd:

> *"We've adapted the Siambr with a lot of attention being paid to sustainability, to the materials, to the way that the works are being undertaken, and the same is true for the adaptations to Tŷ Hywel, and, again, in terms of Bay 32, where we are beyond the lease—the current lease—for Tŷ Hywel, sustainability is fundamental to that project. So, that takes account of all of our estate needs and the estate use as we're modelling them from 2032 and beyond. So, again, we believe that the way we're approaching Bay 32, with sustainability at the heart of it, will allow us to deliver our strategy and our goals"*[98].

[95] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 17 Chwefror 2025
[96] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 129
[97] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 133
[98] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 137

### Dangosydd Perfformiad Allweddol 15: Gwariant gyda chyflenwyr yng Nghymru

**85.** Mae'r Comisiwn wedi gosod targed i sicrhau bod 50% o'i wariant yn mynd i gyflenwyr yng Nghymru erbyn diwedd y Chweched Senedd [99]. Mae'r Cyfrifon yn nodi gostyngiad cyffredinol yn y perfformiad yn erbyn y metrig hwn, gyda gwariant yn gostwng o 44% (rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024) i 42% (rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025).

**86.** Mae'r Cyfrifon yn nodi:

> *"Rydym wedi craffu ar y gwariant, ac achos y gostyngiad yw nifer o gontractau untro sy'n cefnogi Diwygio'r Senedd, Bae 32, ac adnewyddiadau trwyddedau blynyddol. Mae gweithgareddau a phennu rhagolygon yn digwydd i ymdrechu i adfer y sefyllfa"*[100].

**87.** Nododd y Prif Weithredwr a'r Clerc fod rhywfaint o welliant wedi bod yn y ffigur hwn yn ystod 2025-26 hyd yn hyn (hyd at 46%). Fodd bynnag, roedd yn cydnabod nad oes sicrwydd a fyddant yn cyrraedd eu targed[101].

## Ein barn ni

**88.** Nododd y Pwyllgor mai 2024-25 oedd y flwyddyn gyntaf i'r Comisiwn beidio â chyrraedd ei dargedau allyriadau carbon blynyddol, sy'n arwain at dargedau allyriadau 2030. Fodd bynnag, roedd prif sbardunau'r cynnydd mewn allyriadau yn ddealladwy. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai bwriad y Comisiwn o hyd yw defnyddio rhwydwaith gwresogi ardal Caerdydd, a'i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau gwreiddiol.

**89.** Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn teimlo ei fod wedi derbyn digon o sicrwydd ynglŷn ag effaith cynnydd sylweddol yn nifer yr Aelodau a staff cymorth ar y targedau allyriadau carbon, a sut y byddai'r strategaeth yn esblygu i adlewyrchu hyn.

**90.** Byddai'r Pwyllgor yn hoffi derbyn rhagor o wybodaeth am sut mae Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn yn debygol o esblygu ar ôl yr etholiad er mwyn adlewyrchu'r pwysau ar y defnydd o ynni ar yr ystad, yn ogystal â'r cynnydd mewn teithio busnes a fydd yn deillio o hynny. Hefyd, byddai'n ddealladwy pe bai

[99] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t42
[100] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t42
[101] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 139

angen adolygu targedau er mwyn adlewyrchu graddfa'r her hon, a dylid hysbysu'r Pwyllgor (a'i olynydd) am unrhyw ddatblygiadau.

**Argymhelliad 1.** Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd ei Strategaeth Carbon Niwtral yn newid ar ôl Diwygio'r Senedd er mwyn ymateb i'r her sy'n deillio o gynnydd sylweddol yn nifer yr Aelodau a swyddogion.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Comisiwn rannu gyda'r Pwyllgor unrhyw adolygiadau mewnol sydd wedi eu cynnal er mwyn asesu'r effaith ar allyriadau carbon parhaus y Comisiwn cyn yr etholiad.

**Argymhelliad 3.** Dylai Comisiwn y Senedd roi gwybod i'r Pwyllgor hwn (neu ei olynydd) am unrhyw newidiadau i'w darged allyriadau carbon (Dangosydd Perfformiad Allweddol 14 ar hyn o bryd) a chynnwys rhagor o fanylion am sut y mae unrhyw darged newydd yn cael ei gyfrifo.

**91.** Er ei bod yn anffodus bod y targed ar gyfer gwariant gyda chyflenwyr yng Nghymru yn parhau i fod yn is na'r targed, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y sefyllfa yn fwy cymhleth oherwydd graddfa'r prosiectau sy'n gysylltiedig â Diwygio'r Senedd sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd gan y Comisiwn. Fodd bynnag, byddem yn gobeithio gweld canlyniadau yn erbyn y targed hwn yn gwella yn dilyn yr etholiad sydd i ddod, pan fydd llawer o'r prosiectau tymor byr mwy arwyddocaol wedi dod i ben.

**Casgliad 1.** Bydd y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad yn ei Adroddiad Etifeddiaeth yn gofyn i'r Pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor hwn fonitro gwariant y Comisiwn gyda chyflenwyr yng Nghymru.

# 9. Staff

## Nifer y staff a chyflogau

**92.** Yn gyffredinol, mae nifer y staff mewn swydd ar 31 Mawrth 2025 wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r cyfansoddiad wedi newid gan fod mwy o staff yn cael eu cyflogi a bod llai o staff asiantaeth, staff ar secondiad, a staff dros dro[102].

**93.** Cynyddodd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn 3.5 i 490.1 cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2025, o'i gymharu â 486.6 cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2024.

**94.** Roedd cyflog gweithwyr ar y 50fed canradd cyflog (canolrifol) a'r 75ain canradd cyflog ar gyfer 2024-25 wedi cynyddu 3.0% o'i gymharu â 2023-24[103]. Cynyddodd cyflog gweithwyr yn y 25ain canradd 6.7% o'i gymharu â 2023-24.

**95.** Nododd y Comisiwn "fod cyflogau swyddi ar raddau is yn llai na chyflogau swyddi ar raddau tebyg o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru"[104]. O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi cytuno ar "godiad cyflog cyfunol, wedi'i dargedu". Mae'r Cyfrifon yn nodi:

> *"Yn ogystal â sicrhau tegwch ar draws pob gradd, mae'r codiadau cyflog hyn yn cefnogi ymrwymiad y Comisiwn i barhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol"[105].*

**96.** Roedd pob un o'r gweithwyr yn derbyn y Cyflog Byw o leiaf[106]. Pan ofynnwyd iddo am y gwaith sydd angen ei wneud i baratoi'r adolygiad, esboniodd y Cyfarwyddwr Adnoddau:

> *"We have a statutory requirement to be broadly comparable, and in the productive negotiations with our trade union partners, some particular issues and data were provided that we looked at positively and the Commission responded positively to make its decision. It's*

[102] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t158
[103] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t152
[104] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t64
[105] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t64
[106] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t153

> *part of a wider set of negotiations. There's a lot of data, and a lot of benchmark examples are used, but that was one where all parties… agreed that there was an issue that needed to be looked at"*[107].

**97.** Pan ofynnwyd iddi sut y maent yn sicrhau cydbwysedd rhwng caffael yr arbenigedd cywir ar gyfer y sefydliad a rheoli'r nifer cynyddol o staff, cyfeiriodd y Prif Weithredwr a'r Clerc unwaith eto at y fframwaith adnoddau tymor canolig, gan egluro:

> *"The aim of that is to strategically align staffing with available resources and Commission priorities. For example, we have targeted start dates for new staff so that vacancies are filled at the right time with people who have the required skills and experience through competency-based selection processes, as you'd expect. And then we also plan learning and development opportunities on an ongoing basis so that staff with the proper skills are available to the Commission"*[108].

**98.** Pan ofynnwyd iddo sut y maent yn rheoli'r cydbwysedd rhwng arbenigedd mewnol ac allanol i gefnogi prosiectau newid amrywiol y Comisiwn, esboniodd y Cyfarwyddwr Adnoddau:

> *"Sustainability is an area where we've got excellent resource already, but managing these kinds of projects, we've identified that as an opportunity, if you like. But just thinking of the Bay 32 and the Siambr projects in particular as complex projects, they aren't really the kind of skills where we would need to have dedicated architectural services as an organisation, say with dedicated mechanical and electrical engineering services. Those are relatively expensive and specialised services that we wouldn't need on a 24/7 basis, based on our current workforce planning"*[109].

[107] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 159
[108] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 150
[109] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 156

## Trefniadau oddi ar y gyflogres

**99.** Yn unol â gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, adroddodd y Comisiwn ar y canlynol:

- Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y dydd fel ar 31 Mawrth 2025 – 1;
- Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres ar unrhyw bwynt yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 – 2;
- Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres ar unrhyw bwynt yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025, a'r nifer oedd yn destun deddfwriaeth oddi ar y gyflogres o fewn cwmpas IR35 – 2.[110]

**100.** Mae'r Cyfrifon yn rhoi rhagor o fanylion, gan ddatgan:

> *"Cafwyd un ymrwymiad oddi ar y gyflogres gan aelodau'r bwrdd neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, sef y Prif Swyddog Cyllid Dros Dro a benodwyd ar sail interim er mwyn helpu tra bod y broses recriwtio yn cael ei chynnal i lenwi'r swydd yn barhaol (2023-24 – un Prif Swyddog Cyllid Dros Dro, Tachwedd 2022 - Mehefin 2023)".*[111]

**101.** Yn ystod y flwyddyn, mae'r Comisiwn wedi gwneud y canlynol hefyd:

- wedi cael "mewnbwn hanfodol gan ymgynghorwyr arbenigol" ar gyfer prosiect Siambr 26.[112]
- wedi comisiynu cymorth allanol, "am gost gymharol fach, fel rhan o weithgarwch arferol y Strategaeth Ystadau, i gynorthwyo gydag ymarfer yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer defnydd hirdymor adeilad y Pierhead. Byddai anghenion Aelodau yn rhan o feini prawf craidd yr ymarfer hwn a byddai'n cael ei gynnal fel rhan o'r rhaglen Ffyrdd o Weithio".[113]

---

110 Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t159
111 Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t159-160
112 Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t95
113 Comisiwn y Senedd, Cyfarfod Comisiwn y Senedd, 23 Medi 2024

- cael cyngor gan bartneriaid y prosiect CBRE ac Avison Young ar gyfer prosiect Bae 2032. Fe wnaeth aelod o staff Avison Young ailbrisio Tir ac Adeiladau'r Comisiwn ar 31 Mawrth 2025.[114]

**102.** Mewn llythyr i'r Pwyllgor yn Dilyn y sesiwn dystiolaeth[115], rhoddodd y Comisiwn ddiweddariad ar wariant ar ymgynghorwyr allanol, gyda sgiliau ac arbenigedd wedi'u caffael ym meysydd:

- Cyngor masnachol;
- Ymgynghori ar gostau;
- Gwasanaethau pensaernïol;
- Gwasanaethau Mecanyddol a Pheirianyddol;
- Datblygiadau achos busnes;
- Cyngor cyfreithiol.

**103.** Gwnaed y rhan helaeth o'r caffael hwn i gefnogi'r Comisiwn i gyflawni ei brosiect Bae 32, gan nad oedd rhai o'r sgiliau a'r arbenigedd ar gael yn fewnol. Mae meysydd eraill lle mae'r Comisiwn wedi caffael yn cynnwys prisio'r ystad yn flynyddol, astudiaethau dichonoldeb ar gyfer gwaith ystadau a chynorthwyo gyda chyflawni prosiectau – nodwyd y feddalwedd gyflogres fel enghraifft. Mae'r gwariant dros y 3 blynedd blaenorol fel a ganlyn:

- 2022-23: £155,000;
- 2023-24: £173,000;
- 2024-25: £915,000.

**104.** O ran y ffigur olaf, roedd £650,000 ohono'n ymwneud â'r prosiect Bae 32, tra bod £135,000 wedi'i wario ar brosiect i ad-drefnu'r Siambr.

## Trosiant staff

**105.** Mae'r Comisiwn yn nodi cynnydd bach mewn trosiant staff ar gyfer 2024-25 i 6.5%, o'i gymharu â 6.0% y flwyddyn flaenorol[116]. Mae'r Cyfrifon yn nodi bod y

[114] Comisiwn y Senedd, Cyfarfod Comisiwn y Senedd, 9 Rhagfyr 2024; Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t209
[115] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 23 Hydref 2025
[116] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t162

ganran hon yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer y gyfradd ymddiswyddo gwirfoddol o 10.3% yn ôl Xpert HR).

**106.** Mae Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25 yn disgrifio amrywiad yn y gyfradd trosiant yn ôl gradd, gan gydnabod bod y gyfradd yn uwch ar raddau Band 2 Cymorth Tîm a Rheoli, sef 37.9% a 30.3% yn y drefn honno, ar gyfer 2024-25[117]. Mae'r adroddiad yn nodi:

> *"Mae trosiant yn parhau i fod ar ei uchaf ymhlith graddau Cymorth Tîm, gyda chyfartaledd tair blynedd o 37.9%. Er bod disgwyl rhywfaint o symudiad yn y rolau hyn, gall y ffigur hwn ddangos heriau o amgylch dylunio swyddi, llwybrau datblygu neu gyfleoedd canfyddedig i ddatblygu"*[118].

**107.** O ran y sefydlogrwydd cymharol ar y lefel weithredol, mae'r adroddiad yn nodi:

> *"Gall y lefel hon o sefydlogrwydd ar y brig gefnogi parhad a chadw gwybodaeth sefydliadol. Fodd bynnag, mae hefyd yn cyflwyno heriau o safbwynt amrywiaeth a chynhwysiant. Gall trosiant isel ar lefelau uwch sy'n gwneud penderfyniadau gyfyngu ar ein gallu i amrywio arweinyddiaeth a mynd i'r afael â thangynrychiolaeth"*[119].

**108.** Yn ystod 2024-25, gadawodd 33 o bobl y Comisiwn. Cafodd 17 o'r rhain gyfweliad ymadael ffurfiol.[120]

## Absenoldeb oherwydd salwch

**109.** Gostyngodd y gyfradd absenoldeb staff oherwydd salwch i gyfartaledd o 6.6 diwrnod fesul person yn 2024-25, o'i gymharu ag 8.6 diwrnod yn 2023-24[121]. Nid oes modd gwneud dadansoddiad mwy hirdymor gan fod y Comisiwn wedi newid y metrig o ganrannau i ddiwrnodau yn 2023-24 er mwyn "rhoi dadansoddiad mwy

---

[117] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t18
[118] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t18-19
[119] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, recriwtio, adrodd ar y bwlch cyflog ac adroddiad archwiliad cyflog cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t17-19
[120] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t34
[121] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t161

cywir a'r gallu i gymharu ag adrannau llywodraethol eraill sydd i gyd yn gweithio gyda diwrnodau"[122]. Mae'n nodi bod y gyfradd absenoldeb yn is na meincnod y Gwasanaeth Sifil o 8.1 diwrnod[123].

**110.** Roedd absenoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn cyfrif am 1,517 o ddiwrnodau a gollwyd, neu 45.9% o gyfanswm yr absenoldeb[124]. Mae hyn yn cymharu â 1,512 o ddiwrnodau a gollwyd yn 2023-24, neu 40.6% o gyfanswm yr absenoldeb[125]. Mae'r Comisiwn yn disgrifio hyn fel "dychwelyd i lefelau'r pandemig yn 2020-21 lle roedd absenoldeb iechyd meddwl yn cyfrif am 40 y cant o gyfanswm yr absenoldeb"[126].

**111.** Yn ystod 2024-25, gwnaeth y Comisiwn adolygu a diweddaru ei bolisi rheoli absenoldeb oherwydd salwch, gan ddweud wrth y Pwyllgor ym mis Hydref 2024:[127]

> *"… it is very much a combination of providing well-being support to staff in terms of their physical and mental health, and so there'll be a suite of resources there, but it is also about training managers in the handling of both short- and long-term sickness, going forward. So, I'm hoping that there will be further benefits from that as the system beds in."*[128]

**112.** Mae'r Comisiwn wedi cyflwyno polisi Salwch Hirdymor a pholisi Salwch Tymor Byr[129], a rannwyd gyda'r Pwyllgor yn dilyn argymhelliad yn adroddiad Cyfrifon 2023-24[130].

**113.** Cadarnhaodd y Prif Weithredwr a'r Clerc fod y ffigur wedi gostwng i 6.4 o ddiwrnodau ym mis Gorffennaf 2025.[131]. Pan ofynnwyd iddi am y rheswm am y gwelliannau, eglurodd:

[122] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t41
[123] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t161
[124] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t161
[125] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, Gorffennaf 2024, t148
[126] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t161
[127] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t161
[128] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2024, paragraff 345
[129] Llythyr oddi wrth Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Gorffennaf 2025
[130] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2023-24: Comisiwn y Senedd, Tachwedd 2024, t43
[131] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 170

> *"I would say that, in terms of the wellness strategy that we launched three years ago, that has helped us develop a proactive strategic approach to prevent absence from occurring in the first place and then manage it when it does. We have new policies just agreed, which distinguish more clearly between short-term and long-term absence; that has helped us address problems that we looked at a few years ago when we identified that there were an uncomfortably high number of long-term absences. I think in 2023, it was 53 employees; that has been brought down now to 33 employees.*
>
> *Analysis enables us to pinpoint the reasons why these absences are happening, with the aim, of course, of training managers and applying policies and providing support that can help get people back to work"*[132].

## Amrywiaeth y gweithlu

**114.** Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n cynnwys polisïau, camau gweithredu a ffigurau manwl, ochr yn ochr â'r Cyfrifon[133], ac Adroddiad ar y Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Archwiliad Cyflog Cyfartal[134] sy'n darparu gwybodaeth fanwl am broffil y gweithlu a'u tâl.

### Rhywedd

**115.** Ar 31 Mawrth 2025, mae'r Comisiwn yn parhau i gyflogi ychydig yn fwy o fenywod na dynion. Mae mwy o ddynion na menywod yn gweithio yn y ddwy raddfa gyflog isaf (59.3% ar lefel Cymorth Tîm a 56.1% ym Mand Rheoli 3). Mae mwy o fenywod yn gweithio ar raddfa Band Rheoli 2 (58.7%) a Band Rheoli 1 (60%)[135]. Ar hyn o bryd, mae 50.0% o'r staff sy'n gweithio yn nhri band uchaf y Comisiwn (Band Gweithredol 2, Band Gweithredol 1 a Staff Uwch) yn fenywod.

[132] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 12 Hydref 2025, paragraffau 170-171
[133] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025
[134] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025
[135] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t28

**116.** Mae cyfran uwch o fenywod yn gweithio'n rhan-amser na dynion (27.1% a 5.7% ar gyfer menywod a dynion yn y drefn honno)[136].

**117.** Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yw 0.0%, sy'n golygu bod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal wrth edrych ar y canolrif. Y bwlch cyflog cymedrig yw -3.94%, sy'n dangos bod menywod yn ennill ychydig yn fwy ar gyfartaledd na dynion.[137]

**118.** Yn ystod 2024-25, nododd nifer fach o staff eu bod yn unigolion trawsryweddol (0.2% o staff y Comisiwn)[138].

## Ethnigrwydd

**119.** Yn 2024-25, mae 5.9% o'r gweithlu yn nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol, o'i gymharu â 5.2% yn 2023-24, sef cynnydd cyffredinol o 26 i 31 o bobl[139]. Wrth ddadansoddi'r ffigurau, mae'r Comisiwn yn datgan:

> *"… rydym yn cydnabod bod lle sylweddol i wella o hyd ac mae'r ffigur hwn wedi'i egluro gan y ffaith nad yw 4.3% (22 o bobl) o'n gweithlu wedi ateb a/neu mae'n well ganddynt beidio â datgan eu hethnigrwydd. Rydym yn annog staff i hunan-ddatgan eu hamrywiaeth a'u gwybodaeth bersonol unwaith y flwyddyn, gan egluro pam mae angen eu data, sut maent yn cael eu defnyddio a ble maent yn cael eu cyhoeddi"*[140].

**120.** Mae 33.3% o staff sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol yn cael eu cyflogi ar y band cyflog isaf, y radd Cymorth Tîm[141]. Mae hyn wedi gostwng o 42.3% yn 2024, 45.5% yn 2023 a 50% yn 2022.

**121.** Mae'r bwlch cyflog o ran ethnigrwydd fel a ganlyn:

---

[136] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t51
[137] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t9
[138] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t26
[139] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t24
[140] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t24
[141] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t25

- Mae'r bwlch cyflog cymedrig o ran ethnigrwydd ar gyfer 2024-25 yn 18.56%, sy'n is na'r ffigur o 23.2% yn 2023-24 a 23.5% yn 2022-23.[142]
- Mae'r bwlch cyflog canolrifol o ran ethnigrwydd ar gyfer 2024-25 yn 20.17%, sy'n is na'r ffigur o 26.4% yn 2023-24 a 23.6% yn 2022-23.[143]

**122.** Wrth nodi'r duedd ar i lawr, dywedodd y Comisiwn:

> *"… mae staff o gefndir ethnig leiafrifol wedi'u dosbarthu'n anwastad o hyd, a chânt eu cyflogi'n bennaf yn y bandiau is ar y raddfa gyflog.*
>
> *Mae'n bwysig nodi bod maint y sampl yn fach iawn, ac felly mae'r data yn sensitif i newidiadau hyd yn oed pan fydd un person yn gadael neu'n ymuno â'r sefydliad"*[144].

## Cefndir economaidd-gymdeithasol

**123.** Yn 2024-25, datgelodd 51.7% o staff eu cefndir economaidd-gymdeithasol, o'i gymharu â 47.5% yn 2022-23 a 48.5% yn 2023-2024[145]. Mae'r Comisiwn yn dweud bod y wybodaeth hon "yn hanfodol i ddeall cefndiroedd amrywiol ein gweithlu a nodi meysydd y gallwn eu gwella".

**124.** Mae'r rhan fwyaf o staff yn dod o gefndir proffesiynol, sef 55% o'r gweithlu a ddatganodd eu cefndir economaidd-gymdeithasol. Roedd 30% yn dod o gefndir dosbarth gweithiol, gyda'r gweddill yn dod o gefndir canolraddol[146]. Meddai'r Comisiwn:

> *"At ddibenion adrodd yn y dyfodol, hoffem ddefnyddio'r data gwaelodlin hyn i ddeall rhagor am gamu ymlaen o ran gyrfa, a sut y mae hynny'n croestorri â chefndir economaidd-gymdeithasol ein gweithlu. Er mwyn cynnal dadansoddiad ystyrlon, byddai angen*

---

[142] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t55
[143] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t55
[144] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t55
[145] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t38
[146] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t30

> *cyfradd ddatgan uwch, ac felly byddwn yn parhau i annog mwy o staff i hunan-ddatgan eu cefndir economaidd gymdeithasol"*[147].

## Anabledd

**125.** Nododd 8.5% o'r gweithlu fod ganddynt anabledd, i fyny o 7.4% yn 2024[148]. Nid yw 9.1% o staff wedi datgan a oes ganddynt anabledd ai peidio, o'i gymharu â 8.9% yn 2023-24. Ar y pwynt olaf hwn, dywed y Comisiwn ei fod yn credu:

> *"… nad yw'r data hyn yn adlewyrchu llawer o bobl ag anableddau cudd, megis salwch meddwl, anableddau dysgu a chyflyrau iechyd hirdymor eraill, a allai uniaethu â'r diffiniad o anabledd"*[149].

**126.** O ran recriwtio, cafodd 17.6% o gynigion swyddi allanol a 4.2% o gynigion swyddi mewnol eu gwneud i bobl ag anabledd[150]. Mae hyn yn cymharu â 7.7% o gynigion swyddi allanol a 18.8% o gynigion swyddi mewnol yn 2023-24.

**127.** Mae'r Comisiwn yn adrodd ar y bwlch cyflog o ran anabledd, gyda ffigurau'r bwlch cyflog canolrifol yn dangos bod pobl sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn derbyn yr un tâl â phobl nad ydynt yn nodi bod ganddynt anabledd. Mae pobl sy'n nodi bod ganddynt anabledd yn cael eu talu 6.34% yn fwy na phobl nad ydynt yn nodi bod ganddynt anabledd wrth edrych ar y gwahaniaeth canolrifol yn y cyfanswm cyflog (bwlch cyflog gwrthdro).[151]

---

[147] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t31
[148] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t22
[149] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t22
[150] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t42
[151] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t70

### Cyfeiriadedd rhywiol

**128.** Mae 6.1% o staff yn nodi eu bod yn LHDC+ (2023-24: 5.4%), gyda chyfradd peidio â datgelu o 13.6% (2023-24: 13.3%)[152]. Mae dadansoddiad o'r data yn dangos bod dosbarthiad gwastad o staff LHDC+ ar draws ein graddau cyflog.[153]

## Recriwtio Cynhwysol

**129.** Mae'r Comisiwn wedi adolygu canllawiau i ymgeiswyr er mwyn "rhoi eglurder ar y prosesau presennol a rhoi sicrwydd i ymgeiswyr a allai fod yn anabl ynghylch yr addasiadau rhesymol y gellir eu gwneud drwy gydol y broses recriwtio".[154]

**130.** Mae'n ychwanegu:

> *"Mae canllawiau a deunyddiau hyfforddi ategol ar gyfer staff sy'n cymryd rhan mewn paneli recriwtio wedi'u hadolygu a'u hadnewyddu. Bydd cysyniadau tuedd, braint a chreu profiad ymgeisydd cadarnhaol yn themâu canolog drwy gydol y canllawiau a'r deunyddiau hyfforddi".*

**131.** Pan ofynnwyd iddi fyfyrio ar y dull o wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr niwrowahanol, esboniodd y Prif Weithredwr a'r Clerc:

> *"The nature of those reasonable adjustments depend on the individual applicant. So, we will seek advice from the applicant on what support they need, given their circumstances, whatever the nature of those special needs might be, and we will offer appropriate adjustments to that".*[155]

[152] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t54; Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2023-24, Gorffennaf 2024, t31
[153] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t29
[154] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Gweithlu, Recriwtio, Adrodd ar y Bwlch Cyflog ac Adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2024-25, Gorffennaf 2025, t61
[155] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 181

**132.** Pan ofynnwyd iddi ehangu ar y lefel o wybodaeth sydd ar gael i ddarpar ymgeiswyr, eglurodd mai athroniaeth y Comisiwn yw teilwra'r broses i anghenion unigol ac osgoi gwneud rhagdybiaethau[156].

**133.** Mae'r Comisiwn yn nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn erbyn dangosydd perfformiad allweddol sydd â'r nod o gynyddu ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn allanol gan unigolion sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig leiafrifol (Dangosydd Perfformiad Allweddol 12). Mae'r adroddiad ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn cadarnhau:

> *"Ar 31 Mawrth 2025, mae nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol wedi parhau i gynyddu, ac mae'n 222 (20.2 y cant) ar hyn o bryd, o'i gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf lle cawsom 116 (16.2 y cant) o geisiadau. Mae'r data ar gyfer y flwyddyn adrodd hon yn dangos bwlch yn y trosiad rhwng cyfweliad a chynnig swydd ar gyfer ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig. Byddwn yn parhau i fonitro'r cyfraddau trosi ar draws ein prosesau recriwtio ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, ac yn defnyddio mewnwelediadau data ac adborth ymgeiswyr i nodi unrhyw rwystrau posibl a/neu wirioneddol i addasu ein prosesau yn unol â hynny"*[157].

**134.** Dywedodd y Prif Weithredwr a'r Clerc wrth y Pwyllgor fod y Comisiwn yn ymwybodol iawn o'r angen i fonitro cyfraddau trosi[158].

## Arolygon

### Arolwg Pobl neu Staff

**135.** Mae'r arolygon hyn yn cael eu cynnal bob 18 mis trwy arbenigwr arolygon annibynnol (WorkL)[159]. Mae Dangosydd Perfformiad Allweddol 10 yn ymwneud â'r sgôr ymgysylltu o'r arolwg staff blynyddol, a oedd yn 74% yn arolwg Medi 2024. Nododd y Comisiwn fod y ffigur hwn 4% yn uwch na chyfartaledd y diwydiant ac

[156] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 184
[157] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t40
[158] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 179
[159] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t38; Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t163

yn gyfuwch â'r cyfartaledd byd-eang, er ei fod ychydig yn is na'r arolwg blaenorol (75%)[160].

**136.** Mae Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn ar gyfer 2024-25 yn nodi rhai o'r canlyniadau allweddol, gan gynnwys:

- Rwy'n teimlo'n hapus yn y gwaith: ymatebodd 72% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.
- Mae fy llesiant yn bwysig i'm cyflogwr: ymatebodd 73% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.
- Rwy'n cael fy nhrin â pharch: ymatebodd 78% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.
- Mae fy safbwyntiau yn cael eu clywed yn y gwaith: ymatebodd 72% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.
- Mae Comisiwn y Senedd wedi ymrwymo i greu gweithle amrywiol a chynhwysol: ymatebodd 78% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn .
- Rwy'n credu bod Comisiwn y Senedd yn parchu gwahaniaethau rhwng unigolion (e.e. diwylliant, ffyrdd o weithio, cefndiroedd, syniadau, ac ati) - ymatebodd 77% yn gadarnhaol i'r datganiad hwn.

## Arolwg Pwls Llesiant

**137.** Mae'r Comisiwn yn cynnal Arolygon Pwls Llesiant bob chwe mis, ac mae'r Adroddiad Blynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant yn crynhoi'r canfyddiadau[161]:

- Mae'r sgôr gyfartalog ar gyfer iechyd corfforol yn 3.49 allan o 5, ac yn ôl y Comisiwn mae hyn yn awgrymu lefel gyson ar draws pob arolwg pwls.
- Y sgôr gyfartalog ar gyfer iechyd meddwl oedd 3.31 allan o 5, cynnydd ers yr arolwg diwethaf.
- Bu gostyngiad mewn straen yn gysylltiedig â gwaith, gyda 50% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod wedi profi straen yn gysylltiedig â'u swydd, sy'n ostyngiad o'i gymharu â 55% yn Hydref 2023. Yn ôl y Comisiwn,

[160] Comisiwn y Senedd, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25, Gorffennaf 2025, t38
[161] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t59

llwyth gwaith yw'r prif ffactor sy'n gyfrifol am straen o hyd, a nodwyd hynny gan 48% o'r ymatebwyr, ond bu gostyngiad o 13% yn y ffigur hwn.

- O blith y 185 o ymatebwyr a oedd yn profi straen yn gysylltiedig â gwaith neu'n rhannol gysylltiedig â gwaith, roedd 55% yn fenywod, 30% yn wrywod, nododd 2% ei bod yn well ganddynt beidio â dweud, ac ni wnaeth 13% ymateb.
- Mae 94% o staff yn cytuno bod eu rheolwr llinell yn poeni am eu llesiant, sy'n ostyngiad bach.
- Mae 84% o staff yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith.
- Mae 94% o staff yn teimlo bod eu tîm yn eu cefnogi a bod ganddynt gysylltiad ag ef.

**138.** Pan ofynnwyd iddi fyfyrio ar nifer yr ymatebwyr a gyfeiriodd at straen yn gysylltiedig â gwaith, nododd y Prif Weithredwr a'r Clerc fod yr arolwg diweddaraf wedi dangos ffigur o 47%, ond roedd yn cydnabod ei bod yn anodd gostwng y ganran hon[162]. Ymhelaethodd ar y mater hwn, gan esbonio:

> *"Service areas have well-being plans for their services, for their particular teams, which, where appropriate, include consideration of workload and the impact on stress. So, we develop targeted guidance for services that are struggling at any particular time, but there are lots of measures that we just operate across the board, supporting individuals with flexible working options and working within our staff networks to really get to the root of and understand what are driving these numbers"[163].*

**139.** Pan ofynnwyd iddi fyfyrio ar effaith oedi dyddiadau cychwyn ar lesiant staff, roedd y Prif Weithredwr a'r Clerc yn cydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd ac ystyried yr anghenion i ddangos doethineb a gofal o ran yr adnoddau y mae'r Comisiwn yn gofyn amdanynt a llesiant staff a'u cynhyrchiant canlyniadol"[164].

---

[162] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 190
[163] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 191
[164] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Hydref 2025, paragraff 193

## Arolwg Urddas a Pharch

**140.** Roedd gan yr Arolwg Urddas a Pharch gyfradd ymateb o 66%[165]. Mae'r adroddiad ar Amrywiaeth a Chynhwysiant yn crynhoi'r canfyddiadau:

- Roedd 82% o'r staff yn cytuno â'r datganiad eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am ymddygiad amhriodol.
- Pan ofynnwyd a oedd pobl wedi profi neu wedi gweld ymddygiad amhriodol ond heb roi gwybod amdano, y rheswm a nodwyd amlaf oedd ei fod wedi cael ei daclo yn y fan a'r lle, felly nid oedd angen rhoi gwybod amdano. Yn ôl y Comisiwn, mae'r canlyniadau'n dangos bod mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am sut i roi gwybod am ymddygiad amhriodol yn haws cael gafael arni.
- Arhosodd canran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oeddent erioed wedi profi ymddygiad amhriodol yn y gweithle yn ystod y 12 mis blaenorol yr un fath, sef 83%.
- O'i gymharu â 2023, mae nifer yr ymatebwyr sydd wedi gweld ymddygiad amhriodol ar sawl achlysur wedi cynyddu.
- At ei gilydd, roedd 7% o'r ymatebwyr wedi profi ymddygiad amhriodol gan aelodau'r cyhoedd yn y gwaith.
- O'i gymharu â 2023, bu cynnydd yng nghanran y staff a ddywedodd eu bod wedi cael eu herio am ymddwyn yn amhriodol, o 1% yn 2023 i 5% eleni. Mae canran y staff sy'n dweud eu bod wedi herio rhywun am ymddwyn yn amhriodol wedi cynyddu ychydig i 9% o'r ymatebwyr.
- Yn ôl y Comisiwn, "[e]r bod canran gyffredinol yr ymatebwyr a nododd fod yr ymddygiad amhriodol yn gysylltiedig â nodwedd warchodedig yn isel, mae angen i'r gwaith ganolbwyntio'n benodol ar ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhywedd / rhywiaeth. Mae gwaith wedi'i gynllunio i gyflwyno hyfforddiant ar aflonyddu rhywiol a mwy o ymwybyddiaeth am Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25 61 llwybrau sydd ar gael i staff mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol yn y gwaith".

[165] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t60

**141.** Mewn ymateb i'r canlyniadau hyn, mae'r adroddiad yn nodi cyfres o gamau gweithredu, gan gynnwys[166]:

- Darparu canlyniadau ar feysydd gwasanaeth penodol i bob Pennaeth Gwasanaeth.
- Parhau â'r adolygiad o hyfforddiant ar urddas a pharch, er mwyn sicrhau bod fframwaith ar gael sy'n darparu rhyw fath o hyfforddiant yn flynyddol, gan gynnwys beth yw ymddygiad amhriodol a nodi'r mecanweithiau adrodd anffurfiol a ffurfiol.
- Parhau i hyrwyddo'n rheolaidd opsiynau anffurfiol ar gyfer datrys problemau, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd meysydd gwasanaeth i hyrwyddo'r rhain a chynnwys hyn mewn hyfforddiant. Gan gynnwys beth i'w wneud ar yr adeg y bydd rhywun yn ymddwyn mewn ffordd sy'n gwneud i rywun deimlo'n anghyfforddus / teimlo ei fod yn cael ei amharchu. Hefyd, bydd yn cyfathrebu'n fwy rheolaidd ynghylch y broses a sut i gael mynediad at gyngor.
- Gwneud cysylltiadau rhwng urddas a pharch a datblygu fframwaith cymhwysedd, yn ogystal â hyrwyddo mentrau fel adborth 360°, proffiliau mewnwelediadau ac ati, i geisio cynyddu ymwybyddiaeth y staff a rhagweld problemau.

## Ein barn ni

**142.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd y mae'r Comisiwn wedi'i wneud o ran cynyddu'n sylweddol gyfran yr ymgeiswyr o grwpiau ethnig lleiafrifol. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i glywed am unrhyw waith sy'n cael ei wneud i ddeall y rhesymau pam nad yw hyn wedi arwain at gynnydd mewn ymgeiswyr llwyddiannus o'r grwpiau hyn a pha gamau gweithredu fydd yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

**Argymhelliad 4.** Dylai Comisiwn y Senedd ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw waith monitro sy'n cael ei wneud i ddeall yn well pam nad yw cynnydd mewn ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn arwain at gynnydd cymesur mewn penodiadau. Dylai'r wybodaeth hon gael ei darparu cyn craffu ar y cyfrifon blynyddol a dylai gynnwys gwybodaeth am unrhyw gamau sylweddol sy'n cael eu cymryd gan y Comisiwn.

[166] Comisiwn y Senedd, Amrywiaeth a Chynhwysiant: Adroddiad Blynyddol 2024-25, Gorffennaf 2025, t61

**143.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd y mae'r Comisiwn wedi'i wneud, fel y'i nodwyd yn ei adroddiadau blynyddol ar amrywiaeth, ac roedd yn awyddus i glywed sut y mae prosesau drwy gydol y broses ymgeisio yn cael eu teilwra i sicrhau nad yw arferion presennol yn creu anfanteision anfwriadol i ddarpar ymgeiswyr niwrowahanol.

**144.** Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod y broses yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod y broses recriwtio mor gynhwysol â phosibl. Rydym o'r farn y gallai adolygiad o'r broses recriwtio ar gyfer pobl niwrowahanol fod yn ddefnyddiol, er mwyn nodi a oes cyfleoedd eraill ar gael i'r Comisiwn. Yn benodol, dylai unrhyw adolygiad gynnwys profiad bywyd ymgeiswyr a phenodeion niwrowahanol sydd wedi profi'r broses.

**Argymhelliad 5.** Dylid adolygu prosesau recriwtio Comisiwn y Senedd er mwyn deall yn well a ydynt yn darparu'r addasiadau rhesymol sydd eu hangen ar ymgeiswyr niwrowahanol. Dylai'r adolygiad hwn geisio barn pobl niwrowahanol sydd wedi ymgeisio am swyddi a chael eu penodi i swyddi, er mwyn sicrhau bod profiad bywyd y garfan hon yn cael ei adlewyrchu'n llawn.

**145.** Mae'n amlwg bod Comisiwn y Senedd wedi wynebu cydbwysedd anodd rhwng sicrhau'r angen am arbedion yn ystod y flwyddyn a lleihau effaith straen ar staff presennol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod Comisiwn y Senedd wedi ystyried y ffactorau pwysau hyn sy'n cystadlu â'i gilydd mewn ffordd sensitif. Fodd bynnag, gobeithir na fydd y ffactorau pwysau hyn sy'n cystadlu â'i gilydd yn cael cymaint o effaith yn y dyfodol.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **2 Hydref 2025** | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>Comisiwn y Senedd<br>**Elin Jones AS, Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd**<br>Comisiwn y Senedd<br>**Lisa Bowkett, Prif Swyddog Cyllid**<br>Comisiwn y Senedd<br>**Ed Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>Comisiwn y Senedd |